

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd ddechrau mis Awst am farwolaeth Mrs Enid Jones (Llansannan gynt) yng nghartref Plas Ogwen, Bethesda. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i theulu gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Jeff Thomas (Llanfair) sydd wedi colli ei chwaer, Eirlys; a hefyd Mair Jones (Nantglyn) sydd wedi colli ei brawd, Elwy. Cyflwynwn hwy a'u teuluoedd i ofal a thangnefedd Duw gan ddymuno yr un nodded a nerth iddynt hwythau hefyd.
- Cofiwn hefyd am y rhai sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ystod yr haf – Rhiannon Jones (Tanyfron), Annie Griffiths a Susannah Williams (Llansannan), Menna Owen (Cefn Meiriadog); a Celfyn Williams (Groes). Erbyn hyn, mae Annie Griffiths (Llansannan) wedi symud i gartref Yr Hen Ddeondy yn Llanelwy, a Susannah Williams (Llansannan) wedi mynd i gartref Coed Môr, Abergele. Gweddïwn y bydd y ddwy yn profi adferiad a dedwyddwch dros yr wythnosau nesaf ac yn elwa o'r gofal a gânt yno. Da deall bod gweddill y cleifion yn gwella. Hyderwn y byddant hwythau yn cael eu gwarchod a'u cynnal wrth iddynt gryfhau dros y dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Morfydd Williams (Southern House). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd.
- Dymunwn longyfarch nifer o'n haelodau yn galonnog iawn:
 - ⇒ Rhodri Glyn a Gwenno ar eu dyweddïad;
 - ⇒ Owain Roberts (Cefn Berain) a Nia Clwyd ar eu priodas;
 - ⇒ Bethan Lloyd (Llanfair) a Dave ar enedigaeth merch fach, Magi Elin; a Gerallt a Sioned Jones (Llansannan) ar enedigaeth efeilliaid, Twm Gruffydd a Nanw Dafydd;
 - ⇒ Tudur ac Ann Morris (Llansannan) sydd wedi dathlu eu priodas aur; Elwyn a Jane Williams (Llansannan) hefyd yn dathlu eu priodas aur y penwythnos hwn; ac Emlyn a Megan Evans (Llansannan) fydd yn dathlu priodas ddiemwnt ddydd lau nesaf;
 - ⇒ ac Eirwen Roberts (Hiraethog) sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Awst.
- Llongyfarchiadau hefyd i Iona Jones (Cefn Berain); Meurig a Menna Owen, Elfed H. Williams a Gwyneth Evans (Cefn Meiriadog); a Jane Williams a John G. Jones (Llansannan) a fydd yn derbyn Medal Gee ddydd lau nesaf am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Diolchwn amdanynt, ac am bawb arall sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Medi 2012

Cofiwch bod Oedfa'r Fro yn ail-gychwyn heno am 6.00 yn Llansannan. Croeso i bawb!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da iawn a chroeso! “Molwch yr Arglwydd!” Addoli ein Duw yw ein medal aur ni heddiw, ein braint a'n anrhydedd pennaf. “Bydded i bob peth byw foliannu'r Arglwydd: Molwch yr Arglwydd!”

Mae hi wedi bod yn haf tymhestlog ar sawl cyfri: Usain Bolt yn rhedeg fel mellten ac yn 'sgubo pawb o'r neilltu, gwerth mis o law yn syrthio mewn diwrnod, cenllysg a stormydd! Mae'r Beibl yn cynnwys y gorchymyn i bob peth foli Duw – hyd yn oed y “tân a chenllysg, eira a mwg, y gwynt stormus, brenhinoedd, tywysogion a barnwyr, gwŷr a gwragedd ifanc, hynafgwyr a llanciau hefyd” (Salm 148). A'r rheswm? “Oherwydd ei enw ef yn unig sydd ddyrchafedig!” Dewch i ddyrchafu ei enw heddiw eto. Diolch am gael bod yn rhan o'r seremoni agoriadol i ddiwrnod newydd – yr holl greadigaeth, a ninnau yn ei chanol, yn dyrchafu enw ein Duw!

Roeddwn yn trafod hefo Mair y bore 'ma am gynnwys Llais Bro Aled a'r ddau ohonom yn synnu bod cymaint wedi digwydd dros yr haf a chymaint o newyddion i'w gynnwys. Maddeuwch i mi felly nad oes gofod i wneud cyfiawnder hefo pob achlysur na phrofiad ond derbyniwch ein cofion a'n gweddïau y rhai a fu'n wael ac mewn profedigaethau amrywiol. Derbyniwch hefyd ein dymuniadau gorau fel Bro, chwi sy'n dathlu llwyddiant hefo'r arholiadau a'ch gyrfaoedd, yr Eisteddfod a'r Sioeau, chwi sy'n dathlu priodi a phenblwyddi priodas a phenblwyddi arbennig a chwi sydd wedi derbyn adferiad ac iachâd. Diolchwn i Dduw am ei ras a'i ffyddlondeb!

Newyddion hyfryd oedd clywed am ddyweddïad Rhodri a Gwenno. Rwy'n siŵr ein bod am longyfarch y ddau a'u teuluoedd a gweddïo y bydd Duw yn eu bendithio'n helaeth wrth iddynt baratoi at y diwrnod mawr a'u bywyd ynghyd.

Dymunwn yn dda iawn i Elinor hefyd wedi iddi ddechrau ar ei swydd newydd fel cydlynnydd rhaglen 'Dorcas' yn y Gogledd, a nawdd Duw iddi ar ei thaith i Taiwan i ddatlu gwaith Duw yno.

Nodwch hefyd y bydd dathliadau y Fedal Gee yr wythnos hon a llawenhawn gyda'r rhai sydd yn mynd i dderbyn yr anrhydedd yma, eu teuluoedd hwythau a'u cyd-aelodau. Dyma'r rhai sy'n debycach i Mo Farah nag i Usain Bolt – pobl y ras hir yn hytrach na'r sprint! Llongyfarchiadau i chi bob un a diolch i chi am eich ymrwymiad i'r Ysgol Sul ac am eich esiamp! i ni sy'n dilyn.

Gweddïwn am fendith Duw ar yr Ysgolion Sul a'r gwaith plant yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaenau a diolchwn am bob un sydd yn cynnal gwaith yr Ysgol Sul a'r weinidogaeth i'n hieuenctid.

(parhâd trosodd!)

I ddod: Encil yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog – Medi 15fed; **Aduniad Llanw** yng Ngholeg y Bala – Medi 28ain-29ain; **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** – Hydref 25ain

Mae wedi bod yn haf bythgofiadwy i Meirion a Sarah a'r teulu hefyd. Rwy'n siŵr yr ymunwch hefo fi i longyfarch Meirion ar ei benodiad yn Ysgrifennydd Cyffredinol a dymuno pob nerth yn yr Ysbryd iddo a'r teulu ar y cam nesaf o'r daith tua Canaan!

Yr hyn sydd yn rhyfeddol am foliant Duw a'n hymgysegriad iddo ydi hyn: does dim byd yn ein profiad ar hyn o bryd, er mor werthfawr a dwfn, sydd i'w gymharu hefo'r hyn sydd wedi ei ddarparu ar ein cyfer yn y gogoniant a brynwyd i ni gan ein Harglwydd Iesu. Molwch Ef – “ef yw moliant ei holl ffyddloniaid.”

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Gwasanaeth cyflwyno Medalau Gee** yng Nghapel Trefnant am 2.30. Am fwy o fanylion, rhaglen neu docyn te, cysylltwch â'r Parch Wayne Roberts (890845 / 07899 917545 / wayne.roberts1058@btinternet.com)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr Emrys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a Mair yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain, a'r oedolion am 2.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb – aelodau hen a newydd!
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 11.15.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Alan a Nerys Morgan yn cyflwyno Anest i gael ei bedyddio. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Mawrth Pwyllgor Adeiladau am 7.00 a Phwyllgor i drefnu'r Ysgol Sul am 8.00.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Medi 15^{fed} Taith Gerdded Noddedig o amgylch yr Alwen i godi arian tuag at Apêl Guatemala. Croeso i unrhyw un ymuno. Tafleenni noddi ar gael gan Sian Fferwd (870230). Mwy o fanylion yr wythnos nesaf.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau